



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 21AIN MEDI 2016 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), K. James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), D.V. Poole (Tai), T. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianeg).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwraig dros dro Gwasanaethau Corfforaethol ac S151), C. Harry (Cyfarwyddwraig Cymunedau Corfforaethol).

Hefyd yn Bresennol:

B. Hopkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Addysg), M.S. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C. Forehead (Adnoddau Dynol/Rheolwraig Busnes Llywodraethu), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre ddiddordeb yn yr eitem yn ymwneud â Chanolfan Gymunedol Fochriw - Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid. Mae manylion ar gofnod gyda'r eitem berthnasol.

3. CABINET – 7FED MEDI 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Medi 2016 (rhifau cofnod. 1- 6) a'u llofnodi eu bod yn gofnod cywir.

4. CANOLFAN GYMUNEDOL FOCHRIW - DARPARU GWASANAETH IEUENCTID

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre ddiddordeb (fel Trysorydd Canolfan Gymunedol Fochriw) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet i ddefnyddio £126,000 a neilltuwyd yn flaenorol yn y Rhaglen Gyfalaf i ddatblygu cyfleusterau gwasanaeth ieuencid a rhoi estyniad ar Safle Canolfan Gymunedol Fochriw.

Nododd yr aelodau fod cyllideb o £126,000 wedi ei neilltuo yn wreiddiol yn Rhaglen Cyfalaf y Cyngor yn 2013-14 er mwyn darparu estyniad ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid ar Safle Canolfan Gymunedol Fochriw. Ar y pryd, y bwriad oedd bod y £126,000 i fod yn gyfraniad arian cyfatebol y Cyngor i'r cais gan y Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol i Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, ond nid oedd yn llwyddiannus.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn cynnal darpariaeth Clwb Ieuencid yn y Ganolfan Gymunedol ac yn rhentu'r lle 2 noson yr wythnos am 30 wythnos y flwyddyn. Mae Clwb Ieuencid Fochriw yn gwasanaethu 133 o aelodau, y rhan fwyaf ohonynt yn mynychu'r ganolfan yn wythnosol. Datblygwyd cynnig wedi ei ddiweddarau yn ddiweddar a fyddai'n darparu estyniad ar raddfa lai i'r Ganolfan Gymunedol, a fyddai'n cynnwys storfa ar wahân ac ystafelloedd aml-ddefnydd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y bydd y £126,000 sydd wedi ei neilltuo yn y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cyfleusterau gwasanaeth ieuencid ar safle Canolfan Gymunedol Fochriw.

5. ADOLYGIAD CASGLU GWASTRAFF A MÂN NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DREFNIADAU CASGLU PRESENNOL AR GYFER BWYD/GWASTRAFF GARDD

Mae'r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 20fed Medi, 2016, yn darparu diweddariad ar gyfer y Cabinet ar y cynnydd a wnaed gyda'r Rhaglen Newid Gydweithredol (RHNG), ac yn rhoi manylion am ganlyniad yr Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ddiweddar o Reoli Gwastraff a gofynnwyd am farn a chymeradwyaeth y Cabinet ar drefniadau casglu ar gyfer gwastraff bwyd a gardd.

Nododd y Cabinet fod y RHNG wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i hwyluso cyflwyniad o wasanaeth rheoli gwastraff mwy cynaliadwy ledled Cymru drwy gynnig cefnogaeth strategol sydd wedi'i deilwra, er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni canlyniadau Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae Caerffili wedi bod yn ymwneud â RHNG ers dechrau 2015 ac mae'n adolygu ei opsiynau casglu/gwaredu gwastraff ar hyn o bryd. Nid yw'r RHNG wedi'i gwblhau eto ac nid oes unrhyw argymhellion pendant i'w hystyried ar hyn o bryd, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

Ym Mai 2016 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adolygiad lefel uchel o gynnydd y Cyngor wrth ystyried newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu er mwyn cyrraedd targedau statudol. Yn seiliedig ar yr adolygiad, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn "dawel eu meddwl bod y Cyngor yn cynnal ymagwedd bwyllog ac aeddfed wrth ystyried opsiynau ar gyfer ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu ac mae'n cydnabod y meysydd y mae angen eu cryfhau." Roedd y llythyr hefyd yn mynd i'r afael â rhai meysydd i'w hystyried.

Nododd yr Aelodau fod y gwasanaeth cyd-gasglu gwastraff bwyd/gardd wythnosol wedi ei gyflwyno ym mis Hydref 2009, i gyd-fynd â'r newid i gasglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn casglu tua 11,000 tonnall y flwyddyn (amcangyfrifir bod rhaniad o tua 8,000 o dunelli o wastraff bwyd a 3,000 tonnall o wastraff o'r

ardd). Mae hyn yn cael ei brosesu ar hyn o bryd drwy gyfrwng compostio mewn llestr (IVC) yn Mryn Compost Gelli-gaer. Cydnabuwyd bydd angen ei gasglu a'i drin ar wahân drwy 'Treulio Anaerobig' (TA) yn unol â pholisi gwastraff Llywodraeth Cymru yn yr hir dymor. Ym mis Ionawr 2016, cytunodd y Cabinet y byddai'r Awdurdod yn dechrau caffael trin gwastraff bwyd/gardd. Yn ogystal, nodwyd bod y cytundeb contract presennol gyda Bryn Compost yn darparu y gall y Cyngor ddefnyddio'r gweithfeydd TA nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a byddai'n golygu newid i'r casgliad presennol.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried Opsiynau casglu gwastraff bwyd/gardd a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn ychwanegol at yr opsiynau dros dro, a fyddai'n ofynnol ar gyfer gaeaf 2016/17. Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a nododd, er bod rhai costau ychwanegol, bydd y rhain yn cael eu gosod yn erbyn arbedion mewn costau triniaeth. Cytunwyd mai Opsiwn 2 (defnyddio Cerbydau Casglu Pecyn deuol i gasglu Gwastraff Bwyd a Gardd yn Wythnosol drwy gydol y flwyddyn) a Dewis interim C (casgliad wythnosol parhaus o wastraff bwyd a gweithredu gwasanaeth "ar gais yn unig" i gasglu gwastraff o'r ardd ar gyfer gaeaf 2016/17 gan ddefnyddio dau gerbyd casglu sbwriel a 4 aelod o staff a hyn i'w ddilyn gan gasgliad pecyn efail newydd i ddechrau Ebrill 2017) fydd yn cael ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion ac wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd:

- (i) bod cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad Rhaglen Newid Gydweithredol a llythyr Swyddfa Archwilio Cymru a dderbyniwyd yn cael ei nodi;
- (ii) bod opsiwn 2 ac interim Opsiwn C fel y nodir yn Adran 8 yn yr adroddiad (prynu a defnyddio cerbydau casglu pecyn deuol a chreu gwasanaeth cais yn unig ar waith ar gyfer casglu gwastraff o'r ardd yn ystod cyfnod y gaeaf 2016/17) yn cael eu cymeradwyo.

6. CLADDU GWEDDILLION AMLOSGIEDIG

Mae'r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 20fed Medi 2016, yn gofyn am farn y Cabinet ar y strwythur ffioedd ar gyfer claddu gweddillion dynol sydd wedi eu hamlosgi.

Nododd y Cabinet fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 28ain Mehefin, 2016 a'r Cabinet ar 27ain Gorffennaf 2016 y mae Aelodau yn ystyried adroddiad ar gyflwyno graddfa newydd o daliadau ar gyfer darparu gwasanaethau ychwanegol ar draws yr isadran Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned. Roedd yr adroddiad, fel y cyflwynwyd ar 20fed Medi, 2016 o ganlyniad i gais Aelod am wybodaeth bellach ac adroddiad ychwanegol yn ymwneud â thaliadau ar gyfer claddu gweddillion amlosgedig mewn beddau lle'r oedd claddedigaethau blaenorol.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried nifer o opsiynau o ran y Claddu ac yn achos lleiniau amlosgi newydd a amlinellir yn yr adroddiad. Mae Cabinet yn cytuno, ar ôl ystyried yr argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd bod y gostyngiad mewn ffioedd i ailagor plotiau a beddau llawn ar gyfer gweddillion amlosgedig, lle ni fydd unrhyw gladdedigaethau yn y dyfodol, i gael eu hystyried yn ystod Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a bod y ffi i ailagor yn cael ei osod ar £100.00

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion ac wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd:

- (i) bod yr argymhelliad ym Mharagraff 4.7.2 yr adroddiad (bod y ffi ailagor ar gyfer claddu gweddillion amlosgedig mewn lleiniau a beddau llawn os na fydd claddu arch yn y dyfodol yn cael ei leihau i £ 250), a gafodd ei gymeradwyo gan y rhan fwyaf yn y Pwyllgor Craffu, yn cael ei ystyried yn ystod y trafodaethau fel rhan o'r cynigion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017/18;
- (ii) bod yr argymhelliad ym Mharagraff 4.7.3 yr adroddiad (bod y ffi ailagor yn cael ei osod ar £100 yn achos claddedigaethau ychwanegol gweddillion amlosgedig claddgelloedd) yn cael ei gymeradwyo.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.34pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Hydref, 2016.

CADEIRYDD